Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Trefeurig

**Ysgol Gynradd Penrhyncoch**
**Penrhyncoch**
**Aberystwyth, Ceredigion**
**SY23 3EH**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Trefeurig

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Trefeurig |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Nerys Lockyear |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Jacqueline James a Hayley Edwards |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 11 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 14 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 8:15yb a 6:00yh yn ystod tymhorau ysgol. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 07/01/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 12/04/2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 25/01/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn ymyrryd llai yng ngweithgareddau'r plant i hybu eu hannibyniaeth

A2 Mireinio arferion hylendid a thrylwyredd cofnodion y ddarpariaeth ar ôl ysgol

A3 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar ôl ysgol yn cael ei nodi'n fanwl gywir yn natganiad o bwrpas y lleoliad

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob un plentyn yn gwneud dewisiadau synhwyrol ynglŷn â'u gweithgareddau a gyda phwy i chwarae. Maent yn gwneud dewisiadau yn ôl eu diddordebau ac, o'r herwydd, maent yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, wrth iddynt gyrraedd, maent yn mynd yn syth i ddewis eu hoff deganau a mynd i chwarae gyda'u ffrindiau neu'r ymarferwyr. Mae llawer yn cyfathrebu'n hyderus ynglŷn â'u dewisiadau ac maent yn ymateb yn llawen pan geir ymateb gan ymarferwyr. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau gydag oedolion ac maent yn ffyddiog y bydd ymarferwyr yn dangos diddordeb a pharchu eu barnau a'u sylwadau.

Mae bron bob un plentyn yn fodlon ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Maent yn cyrraedd yn eiddgar ac yn ymdopi heb drafferth wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Mae llawer yn dechrau ar weithgareddau'n annibynnol, heb anogaeth ymarferwyr. Er enghraifft, maent yn dechrau tasg benodol ac yn dewis ymuno gyda thasg dan arweiniad oedolyn yn ddisymwth. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n ddeallus gyda'r gweithdrefnau, sy'n creu sicrwydd iddynt wrth ymdopi â phrofiadau newydd.

Mae bron bob un o'r plant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gydag ymarferwyr a chyfoedion. Maent yn gwenu a chroesawu ffrindiau yn gyson ac, o ganlyniad, maent yn dechrau datblygu medrau cymdeithasol pwrpasol. Maent yn gwbl gyfforddus i dynnu sylw ymarferwr i ofyn cwestiwn, rhannu adnoddau neu i ofyn am gymorth. Maent yn awyddus i chwarae gyda'u cyfoedion, ac maent yn sgwrsio'n fyrlymog wrth iddynt gydweithio a rhannu syniadau.

Mae bron bob un plentyn yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diddorol sy'n eu hysgogi a'u cadw'n brysur. Maent yn awyddus i ymgymryd â'r gweithgareddau heriol sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, maent yn greadigol gyda phaent ac wrth adeiladu traciau pren i rolio peli. Maent yn gysurus wrth symud o un gweithgaredd i'r nesaf, ac maent yn dyfalbarhau a chanolbwyntio'n dda am gyfnodau hir.

Mae bron bob un plentyn yn frwdfrydig wrth ddysgu medrau newydd ac maent yn arbrofi ag amrywiaeth o gyfleoedd chwarae diddorol. Maent yn awyddus i ymuno a chyfrannu yn ystod amser cylch ac maent yn falch o'u cyflawniadau. Maent yn dysgu sut i gadw'n iach drwy ymgymryd yn hyderus â gweithgareddau corfforol yn yr awyr agored. Yn ogystal, maent yn deall bod byrbrydau iach a golchi a sychu eu dwylo yn bwysig i'w lles.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyflawni'n dda trwy chwarae gyda'i gilydd yn bwrpasol. Maent yn datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) cadarn, sy'n effeithio'n llwyddiannus ar eu dysgu a'u medrau gwybyddol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn gweithredu arnynt yn synhwyrol. Maent yn canolbwyntio’n drylwyr wrth adeiladu llwybrau antur gyda phlanciau pren a boncyffion coed ac wrth drafod teimladau ei gilydd yn deyrngar gydag oedolion. Mae’r mwyafrif yn cyfathrebu’n glir wrth ymateb i drafodaethau a rhannu cysyniadau. Maent yn defnyddio geiriau ac ymadroddion Cymraeg yn ystyrlon. Er enghraifft, maent yn disgrifio synau anifeiliaid, fel rhuad y teigr a’r llew, yn frwdfrydig. Yn ogystal, maent yn awyddus i ymateb i gerddoriaeth a rhythmau'r tambwrîn, trwy ymuno'n eiddgar mewn caneuon a dawnsfeydd.

Mae llawer o blant yn diddori mewn llyfrau ac yn ystyried eu cynnwys yn ddeallus. Maent yn trafod digwyddiadau’n ystyrlon ac maent yn trin llyfrau fel darllenwyr hyderus. Maent yn ymateb â diddordeb i storïau yn weithredol, fel dylunio croen i’w heliffantod gyda phapur lliwgar a botymau amryliw yn ddychmygus. Maent yn gwneud marciau’n bwrpasol gyda chyfryngau gwahanol fel sialc a phaent ac maent yn paratoi’r fwydlen i’r caffi yn fwriadus. O ganlyniad, maent yn mwynhau eu profiadau ysgrifennu cynnar ac yn esbonio pwrpas eu hysgrifennu’n eglur.

Mae llawer o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn effeithiol ac mewn cyd-destunau cywir. Mae lleiafrif yn cyfrif hyd at 10 yn bwyllog ac yn defnyddio siapiau tri dimensiwn ‘mawr’, ‘bach’ a ‘chanolig’ yn ddeallus i adeiladu tyrau a thrafod maint teisennau. Maent yn dewis offer a deunyddiau perthnasol i ddatrys problemau mathemategol yn dda. Er enghraifft, maent yn didoli a threfnu brigau, cregyn a cherigos yn gynhyrchiol. Yn ogystal, maent yn arbrofi â chyfeintiau ‘llawn’ a ‘gwag’ yn bwrpasol trwy lenwi blychau gyda thywod yn yr ardal balu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau TGCh celfydd trwy ddefnyddio llechi a theganau electronig effeithlon. Er enghraifft, maent yn rheoli symudiadau teclyn electronig ar fap yn ddestlus. O ganlyniad, maent yn ymgyfarwyddo’n dda â’r dechnoleg trwy ddefnyddio’r cyfarpar yn rheolaidd yn eu gweithgareddau dyddiol.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol llwyddiannus trwy yrru beiciau, dawnsio ac ysgwyd parasiwt gyda’i gilydd yn llawen. Mae llawer yn datblygu medrau meddwl a chreadigol pwrpasol, sy’n effeithio’n gadarn ar eu dysgu. Er enghraifft, maent yn creu patrymau diddorol trwy beintio gyda nwyddau gwahanol fel gwlân cotwm a sbyngau yn annibynnol.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio gweithdrefnau effeithiol, sy'n sicrhau bod y plant yn iach ac yn ddiogel. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau ac maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn drwyadl. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo ar ôl cyrraedd y lleoliad i osgoi heintiau. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon mor drwyadl wrth i'r plant gyrraedd ar ôl ysgol. Yn ogystal, mae'r lleoliad yn cofnodi tymheredd y plant a'r oedolion yn ddyddiol i leihau unrhyw risg.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion da, sy’n cyfrannu'n bwrpasol at ddiogelwch y plant ac maent yn sicrhau bod y cofnodion yn gyflawn a chywir. Maent yn sicrhau bod cofnodion damweiniau, gyda'r holl fanylion perthnasol,

yn cael eu llenwi'n fanwl ac yn brydlon. Fodd bynnag, nid yw'r sylw tuag at y manylder cywrain hwn mor amlwg yn y ddarpariaeth ar ôl ysgol.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth glir o anghenion a dymuniadau unigol y plant. Maent yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn ymateb yn deimladwy i blant sy’n dewis peidio â chymryd rhan mewn tasgau penodol, trwy ganiatáu iddynt ddewis eu tasgau eu hunain. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i’r plant rannu offer mewn gweithgareddau ymarfer corff ac i chwarae tu allan.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu perthynas gynnes gyda’r plant. Maent yn trin y plant gyda gofal a pharch. Maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn cefnogi'r plant i reoli eu hemosiynau yn dda. Er enghraifft, maent yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant, sy'n cynnwys 'plîs' a 'diolch' yn gyson. Mae'r ymarferwyr yn creu amgylchedd hapus iawn, lle mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Yn ogystal, maent yn canmol y plant yn aml, sy’n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygu eu hunanhyder a’u dealltwriaeth o barchu ei gilydd.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i’r plant ddatblygu dealltwriaeth o’u Cymreictod ac o’r byd ehangach. Maent yn dysgu sut i drin pobl o bob diwylliant gyda pharch a goddefgarwch. Er enghraifft, maent yn dathlu defodau’r Flwyddyn Newydd Tseiniaidd, yn ogystal â Dydd Gŵyl Dewi. Mae’r ymarferwyr yn frwdfrydig ac yn defnyddio’r Gymraeg yn gyson. O ganlyniad, mae llawer o blant yn dechrau defnyddio’r Gymraeg yn hyderus.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae’r ymarferwyr yn gweithredu’n ddiwyd er lles y plant. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu trwy heriau ymarferol, sy’n ennyn eu diddordebau yn bwrpasol, fel chwarae gyda deinosoriaid a theigrod.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cwricwlwm difyr ac yn cynllunio profiadau dysgu buddiol ac amrywiol ar gyfer y plant tu mewn a thu allan i’r adeilad. Er enghraifft, mae cyfleoedd ar gael i ddatrys problemau trwy ddilyn cyfarwyddiadau helfa drysor ac i ongli rampiau yn fwriadus i gyflymu ac arafu peli wrth iddynt rolio i’r gwaelod.

Mae’r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Maent yn canolbwyntio’n dda ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd geirfa ac ymadroddion, a chanu hwiangerddi bywiog. Mae’r ymarferwyr yn holi’r plant yn ddoeth, sy’n effeithio’n gadarn ar wella’u medrau gwybyddol a’u hawydd i fentro. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn ormodol yn ystod gweithgareddau, sy’n cyfyngu dysgu annibynnol y plant.

Mae’r ddarpariaeth i ddatblygu medrau TGCh y plant yn cynnig heriau cyson i wella eu medrau digidol cynnar. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn eu cymell i gydweithredu'n effeithiol trwy ganolbwyntio ar ddatblygu eu medrau corfforol a chreadigol. Er enghraifft, maent yn eu hannog i yrru’n fywiog ar feiciau a chreu rhestr siopa mewn caffi dychmygol.

Mae pwyslais cadarnhaol gan ymarferwyr ar ddatblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant, ac i ddathlu amrywiaeth. Maent yn darparu cyfleoedd i blant ddysgu am fwydydd o wledydd tramor, fel y bara Iddewig, challah. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus trwy ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen a chanmlwyddiant yr Urdd. Gwneir defnydd buddiol o'r pentref, trwy ymweld â'r siop gyfagos i brynu nwyddau i bobi bisgedi. Mae'r cyfleoedd prin hyn, oherwydd y cyfyngiadau cymdeithasol diweddar, yn dechrau creu ymwybyddiaeth glir i'r plant o'u milltir sgwâr.

Mae'r gweithdrefnau asesu yn effeithiol ac mae ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio ar gyfer y camau nesaf yn nysgu'r plant yn bwrpasol. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith.

Yn ystod y pandemig, mae'r lleoliad wedi cynnig cyfarfodydd rhithiol i rieni a gofalwyr i drafod cynnydd eu plant. Maent yn darparu gwybodaeth am gyflawniadau eu plant yn briodol i rieni a gofalwyr dros gyfryngau cymdeithasol ac ar lafar wrth ddrws y lleoliad.

**Yr amgylchedd:**

Mae ansawdd yr amgylchedd yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd mewnol yn ystyriol i sicrhau ardaloedd diddorol ac ysgogol, sy'n darparu profiadau cyfoethog i blant. Mae'r ystafell yn ddeniadol, yn olau ac mae ardaloedd pwrpasol i blant ddatblygu'n greadigol, i orffwys, i fwyta'n annibynnol ac i eistedd gyda'i gilydd yn ystod sesiynau torfol.

Mae'r ardal allanol yn cynnig gweithgareddau pwrpasol, fel wal i arbrofi â dŵr, adnoddau i beintio a phalu tywod, cegin fwd ac ardaloedd i dyfu blodau a llysiau. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardal allanol yn cael ei defnyddio'n ddyddiol fel rhan annatod o'r amgylchedd dysgu a chwarae, er enghraifft ar gyfer sesiynau dawnsio.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch effeithiol ar waith. Er enghraifft, mae'r staff yn sicrhau bod y drysau ar glo a bod cofnod o bob ymwelydd. Mae'r asesiadau risg yn gynhwysfawr ac yn adnabod, lleihau ac atal y risg i blant. Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch effeithiol yn weithredol wrth i blant gyrraedd a gadael y safle. Yn ogystal, maent yn talu sylw priodol i ddiogelwch yn ystod ymweliadau tu allan i'r lleoliad a thrwy gynnal ymarferion tân rheolaidd.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal ac addysg effeithiol mewn adeilad sydd wedi ei gynllunio a'i osod i hyrwyddo'u hannibyniaeth yn dda. Cedwir llawer o adnoddau ar lefel isel er mwyn galluogi'r plant i ddewis yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau unigol. O ganlyniad, mae llawer o blant yn hollol gyfarwydd ag estyn a dychwelyd offer i'r mannau priodol. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol er mwyn cadw'r amgylchedd a'r offer yn lân ac mewn cyflwr priodol. Mae cyfleoedd da ar gael i blant ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol.

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant, sy'n datblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn llwyddiannus. Maent yn addas i oedrannau'r plant ac mae'r ardal gaffi yn cynnwys llestri a bwydydd i hybu dychymyg a phrofiadau'r plant. Yn ogystal, trwy arddangos a dathlu gwaith y plant ar waliau'r ystafell, mae'r ymarferwyr yn creu ymdeimlad o falchder ac o berthyn i'r plant sy'n creu naws groesawgar i bawb sy'n ymweld â'r lleoliad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r pwyllgor rheoli sefydlog yn llywio cyfeiriad pwrpasol i weithdrefnau'r lleoliad. Mae ganddynt weledigaeth gadarn, sy'n sicrhau bod yr addysgu a'r gofal yn gwella deilliannau'r plant, trwy brofiadau difyr ac ysgogol. O ganlyniad, mae'r arferion cyson a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n gadarnhaol ar fodloni anghenion y plant.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn cydweithio'n gydwybodol gyda'r rheolwraig i gefnogi a chymell y plant i wella'u gwaith a'u lles yn gyson, trwy addysgu a chefnogaeth frwd.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso cadarn yn effeithio'n dda ar arferion y lleoliad. Mae'r rheolwraig yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad, fel yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Mae arweinwyr yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda rhieni a staff yr ysgol, ac mae'r defnydd o'u syniadau yn gwella'r ddarpariaeth a phrofiadau'r plant. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau yn effeithio'n gadarnhaol ar greu gwelliannau pwrpasol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gwrando'n ofalus ar lais y plentyn trwy greu mapiau meddwl ar ddechrau themâu. Yn ogystal, maent yn gweithredu ar awgrymiadau rhieni a gofalwyr yn ddoeth, fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfleu gwybodaeth am weithgareddau'r plant.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn gefnogol ac maent yn gwrando'n synhwyrol ar awgrymiadau'r unigolyn cyfrifol a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae gan y pwyllgor rheoli drefniadau cyson i fonitro arferion y lleoliad. Maent yn dilysu penderfyniadau'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwraig yn rheolaidd i adnabod cryfderau a'r materion i'w gwella. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau hyn yn arwain at dargedau dibynadwy yn y cynllun datblygu. Fodd bynnag, nid yw'r arferion monitro yn sicrhau bod darpariaeth y clwb ar ôl ysgol yn cael ei nodi'n fanwl yn natganiad o ddiben y lleoliad.

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r pwyllgor rheoli yn dyrannu adnoddau yn briodol. Maent yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac yn eu cefnogi a'u hannog i fynychu hyfforddiant perthnasol, i fodloni anghenion y plant yn effeithiol. Mae'r defnydd o'r gyllideb a grantiau yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn ddeallus. O ganlyniad, mae agweddau cadarnhaol yr arweinwyr yn hyrwyddo gwell profiadau i'r plant, trwy gyllido adnoddau defnyddiol, fel cysgodfa yn yr ardal allanol.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau defnyddiol, fel y rhieni a'r gymuned leol sydd yn cefnogi'r lleoliad trwy godi arian. Mae cytundeb llwyddiannus rhwng yr ysgol a'r lleoliad, i rannu'r safle'n ddeallus ac i baratoi'r plant i'r cam nesaf yn eu haddysg yn effeithiol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/03/2022